



cymdeithas 
yr iaith
gymraeg

Awst
2010
cymdeithas.org

Cymunedau Cymraeg Cynaliadwy
Cynllun Adfywio
Cymunedau Penllyn

CYNLLUN ADFYWIO CYMUNEDAU PENLLYN

CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG

- 1. Cyflwyniad, Grŵp Cymunedau Rhydd, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**
- 2. Addysg ar gyfer dyfodol y Cymunedau**
- 3. Tai fel sylfaen i'n cymunedau**
- 4. Sail Economaidd i'n Cymunedau**
- 5. Rhyddid i'r Ifanc yn ein cymunedau**

1. Cyflwyniad

Cefndir

Yn gynnar ym mis Chwefror, 2008 cychwynnodd torf o bobl Penllyn o iard Ysgol y Parc ar daith gerdded a fyddai, yn y pen draw, ar ôl ymweld â chymunedau ar hyd a lled Gwynedd, yn cyrraedd pencadlys Cyngor Gwynedd yng Nghaernarfon. Roedd yn teimlo fel pe bai'r gymuned gyfan, yn blant a rhieni, athrawon, ffermwyr, hen ac ifanc wedi dod at ei gilydd er mwyn cyfleu'r neges eu bod am barhau yn gymuned. Y bygythiad ar y pryd oedd cynlluniau Cyngor Gwynedd i gau nifer o ysgolion yn ardal Penllyn ac yn Ngwynedd yn gyffredinol. Bu protestiadau tebyg mewn sawl ardal wledig yn y sir. Pan ddiflannodd y bygythiad i rai ysgolion, tawelodd y lleisiau a'r brotest rhyw gymaint. Ond ni ddiflannodd y bygythiad i'r cymunedau.

Daeth y bygythiad yn ol i ddyfodol Ysgol y Parc yn 2010 a dangosodd pobl y fro ei gyd eu gwrthwynebiad yn Rali Tryweryn 2010.. Mae'r ewyllys i fyw yn parhau yn y cymunedau, ond mae'r bygythiad yn parhau ac yn ehangach na chynllun ad-drefnu ysgolion yn unig. Mae'r bygythiad hwnnw yn cynnwys ffactorau economaidd a chymdeithasol. Mae'r pwysau hyn yn gwanhau'r ysgolion a byddai cau ysgol, yn ei thro, yn prysuro dirywiad cymunedol. 'Does gan bobl ifanc ddim mynediad i'r farchnad dai. Mae pŵer economaidd mewnfudwyr yn parhau i godi prisiau tai y tu hwnt i lefel cyflogau lleol. Mae rhestrau aros hirfaith am dai cymdeithasol. Mae nifer o dai a allai fod yn gartref i deulu ifanc Cymraeg yn dai haf, ac yn wag am gyfnodau hir o'r flwyddyn. Mae prinder swyddi â chyflogau da i'r bobl ifanc hynny sydd am ddychwelyd i'w cymunedau ar ôl graddio. Mae'r bygythiad yma i barhad cymunedau lle mae'r Gymraeg yn gyfrwng naturiol bywyd bob dydd yn fygythiad i ddyfodol y Gymraeg ym mhob ardal o Gymru.

Nod y cynllun yma yw troi pryder dros ddyfodol ein cymunedau, a amlygwyd gan y frwydr dros un elfen ohonynt, yn weithredu rhagweithiol a chydweithredol dros y gymuned gyfan. Ni all ysgol bentrefol oroesi os na all teuluoedd ifanc fyw yn y gymuned. Yn yr un modd, pa deulu ifanc sydd am fyw mewn pentref sy'n bell o ysgol eu plant? Mae'r holl ffactorau yma yn gysylltiedig, ac mae angen gweithredu radical arnynt oll.

Yn Eisteddfod Genedlaethol Meirion a'r Cyffiniau lansiodd Cymdeithas yr Iaith ymgyrch i annog cymunedau Cymraeg lleol ledled y wlad i ffurfio "Cynlluniau Adfywio Cymunedol" er mwyn sicrhau cymunedau Cymraeg cynaliadwy. Mae Cynlluniau Lleol (gan Awdurdodau Lleol a'r Parciau cenedlaethol) yn gosod fframweithiau polisi yn unig – fel crybwyll pwysigrwydd cynnal a gwneud defnydd llawn o wasanaethau lleol, a sicrhau tai fforddiadwy. Fel arfer, bydd unigolion neu gwmnïau'n ceisio caniatâd wedyn i weithredu oddi fewn i'r fframwaith. Datganwn yn awr y gall cymuned – yn hytrach nag unigolyn na chwmmi – ffurfio cynllun gweithredu tu fewn i'r fframweithiau hyn. Yn wir, yn hytrach na gwranddo ar, a derbyn fframweithiau Awdurdodau Lleol a chynllunwyr eraill, sydd yn aml yn adlewyrchu pŵer y farchnad a datblygwyr allanol yn hytrach na'r bobl, anogwn gymunedau i ffurfio eu Cynlluniau Adfywio eu hunain yn manylu ar ystod eang o bolisiau er mwyn gwireddu'r

gobeithion hyn. Nod canolog y polisiâu – yn ymestyn ar draws pob maes – fydd cynnal y cymunedau, ac yn enwedig galluogi pobl ifainc i wneud aros a byw yn eu cymunedau lleol yn opsiwn ymarferol.

Cynllun Adfywio Cymunedau Penllyn

Amlygodd y gweithgaredd a sbardunwyd gan y bygythiad i ysgolion gwledig Penllyn ddyhead pobl Penllyn i sicrhau dyfodol i'w cymunedau. Mae'n amlwg felly y dylid troi hynny yn weithgaredd barhaus a fyddai'n esgor ar syniadau wedi eu gwreiddio yn y cymunedau eu hunain. Dyma'r ymgais gyntaf i geisio crisialu'r syniadau hynny mewn dogfen ymarferol. Yr ydym felly'n lansio'r ddrafft-gynllun yn Sioe Meirion, 2010, ac yna ei chyflwyno i Bartneriaeth Penllyn er diolch am fywyd Llew ap Gwent a wnaeth gymaint dros y cymunedau ac a roddodd i ni ysbrydoliaeth trwy ymateb yn frwd bob tro.

Ym mhob maes, bydd yn cyflwyno polisiâu cyffredinol i gymunedau Penllyn, ac yna'n manylu ar y cymunedau unigol e.e. manylu ar ba fath o anghenion tai y mae eu hangen ym mhob cymuned unigol. Hybu trafodaeth yw bwriad ein cynllun drafft.

2. Addysg

Cynllun Addysg i sicrhau dyfodol i Gymunedau Penllyn

Nod Cynllun addysg i gymunedau Penllyn yw trafod sut y gellir cynnal a defnyddio i'r eithaf y canolfannau addysg sydd yng nghymunedau Penllyn. Bu gweithio ar hyn yn amserol iawn gan fod

- awdurdod Addysg Gwynedd wedi bod yn adolygu'r ddarpariaeth gynradd yn nalgylch yr ysgol uwchradd leol.
- trafodaethau am ddyfodol y sefydliadau addysg 14-19 oed
- bu trafodaethau yn ystod y 15 mlynedd diwethaf am sut i ddatblygu adnoddau ar safle Ysgol Y Berwyn.
- datblygiadau o du Llywodraeth y Cynulliad -ac yn enwedig y rheoliadau newydd ar ffedereiddio ysgolion.

Hanfod y Cynllun

Hanfod y cynllun yw annog llywodraethwyr ysgolion y cylch i achub y blaen ar gynlluniau ad-drefnu Gwynedd trwy gychwyn trafodaethau brys gyda golwg ar sefydlu ym Mhenllyn Ffederasiwn Ysgolion o'r radd fwyaf uchelgeisiol yn unol a'r rheoliadau newydd y mae'r Llywodraeth wedi eu cadarnhau a'u cyhoeddi yn Ebrill 2010. Y nod fyddai creu Ffederasiwn - o'r model newydd - yn cwmpasu Ysgol Y Berwyn (ac yn y pendraw yr Ysgol Gydol Oes newydd yn y dref) a'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo, gan gynnwys Ysgol Llangwm ar draws y ffin sirol yng Nghonwy. Un datblygiad annisgwyl yw fod y Llywodraeth - yn y fersiwn derfynol o'r rheoliadau - wedi gosod uchafswm o 5 ysgol i fod yn rhan o ffederasiwn o'r fath, ond dywed y Gweinidog (mewn gohebiaeth diweddar fod ganddo "feddwl agored" ar y mater hwn. Fel cam cyntaf, gallai'r 5 ysgol wledig ffurfio ffederasiwn ac yna wneud cais am ffedereiddio a'r Ysgol Gydol Oes newydd yn y dref, wedi i'r ysgol honno gael ei sefydlu.

Fel rhan o'r cynllun dylid medru denu datblygiadau cyfalaf sylweddol i safle Ysgol Y Berwyn, ac hefyd dylid trafod sut i wneud y defnydd llawnaf posibl o'r safleoedd pentrefol er mwyn cryfhau'r cymunedau pentrefol. Dylid gwahodd Coleg Meirion Dwyfor a Sefydliadau Addysg Uwch i fod yn bartneriaid yn y fentr newydd. Hyd yn oed o ystyried y datblygiadau hyn, bydd y niferoedd yn dal yn fach yng nghyd-destun darpariaeth addysg 14-19 oed yng Nghymru. Ni ellid fforddio dyblygu gwastraffus ac felly cydnabyddid mai trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig y byddid yn cynnig y mwyafrif mawr o'r cyrsiau, gan sicrhau dilyniant o'r ysgolion cynradd. Bernir y byddid yn ennill (o ddalgylchoedd cyffiniol) o leiaf gymaint ag y

byddid yn eu colli trwy ddatblygiad o'r fath, a byddai'r ddarpariaeth yn llawer mwy cost-
effeithlon ac yn cyfrannu'n helaeth at gynnaladwyedd y cymunedau Cymraeg lleol.

Rheoliadau Newydd ar ffedereiddio

Newidiwyd yn llwyr y cysyniad o ffederasiwnau trwy'r rheoliadau newydd. Gelwir yn awr yr hen deip o ffederasiwn yn "ysgol aml-safle", sef un ysgol ar nifer o safleoedd. Bu nifer yn pryderu y gallai llywodraethwyr (tan bwysau cyllidol) gau safle bentrefol heb fynd trwy unrhyw broses statudol. Yn ôl y model newydd o ffederasiwn, bydd pob ysgol yn cadw ei hannibyniaeth gyfreithiol, ond yn rhannu Bwrdd Llywodraethwyr integreiddiedig. Bydd dal cyllideb dirprwyedig i bob ysgol unigol, ond disgwylir i'r llywodraethwyr eu cronni at les yr uned gyfan. Gellir cael un prifathro gyda phenaethiaid safle neu arweinyddiaeth ar y cyd. Mae darpariaeth i ysgol ymgynghori am adael ffederasiwn hefyd. Caiff y broses ymgynghorol am sefydlu ffederasiwn o'r fath ei gyrru gan y llywodraethwyr a'r cam cyntaf fyddai cynnal cyfarfodydd ar y cyd o'r byrddau llywodraethol ac yna sefydlu gweithgor i lunio cynllun manwl i ymgynghori yn ei gylch. Gall ffederasiwn o'r fath gwmpasu dwy ysgol yn unig, neu unrhyw nifer hyd at bump. Gall gwmpasu ysgol uwchradd, ond nid coleg addysg. Gall gwmpasu ysgol ar draws ffin sirol.

Manteision sefydlu ffederasiwn o'r fath

- Trwy gynllun integreiddiedig o'r fath bydd cyfle gwell i ddiogelu'r safleoedd addysgol pentrefol, gan ddiogelu gwasanaeth ac adnodd pentrefol o bwys. Dyma ddiogelu hefyd y safonau addysgol sydd wedi dod yn sgil y raddfa uchel o gefnogaeth deuluol a chymunedol sydd i ysgolion sy'n gweithio tu fewn i'r cymunedau.
- Wedi rhoi sicrwydd am ddyfodol yr unedau, gellir trafod orau – yng nghyd-destun pob ysgol unigol – sut y gellir magsimeiddio'r defnydd o'r adeilad ac o'r adnoddau i wasanaethu'r gymuned leol ac i gyflwyno ystod o wasanaethau lleol iddi. Nid mater o gyfri nifer y cyfarfodydd o fudiadau gwirfoddol a gynhelir ynddynt, ond yn hytrach gwneud awdit proffesiynol o'r holl wasanaethau a gynigir gan y Cyngor a'i bartneriaid lluosog gan ystyried sut y gellid eu cyflwyno'n well trwy ddefnyddio'r ysgolion hyn. Mewn rhai ysgolion, gellid dad-gomisiynu rhan o'r adeilad at ddefnydd cymunedol arall, mewn rhai fe ellid lleoli swyddi datblygu neu gymorthfeydd tu mewn iddynt. Dylid trafod gyda phartneriaid eraill yn y cynllun (coleg Meirion-Dwyfor, Prifysgol Bangor neu Goleg Ffederal Cymraeg) sut y gallai eu cyrsiau addysg barhaus estyn at bobl yn eu cymunedau. Dylid ystyried sut y gall pobl ifainc barhau i wneud defnydd o'r adnoddau – ar gyfer hamdden ac ar gyfer hyfforddiant o ran sgiliau gwaith neu sefydlu busnesau.
- Gall trefn ffederal o'r fath sicrhau arbedion arwyddocaol ac felly magsimeiddio'r defnydd o'r incwm ac ehangu profiad addysgol y disgyblion. Gall y llywodraethwyr benodi athrawon i gynnig arbenigedd i nifer o ysgolion oddi fewn i'r ffederasiwn. Gellid cael gweinyddu canolog gan ryddhau amser dysgu penaethiaid. Gellid cynllunio datblygiadau cyfalaf sylweddol ar safleoedd penodol at wasanaeth y ffederasiwn cyfan, gan osgoi dyblygu gwastraffus. Gellir crynhoi disgyblion gwahanol

ysgolion ynghyd i weithgareddau penodol i ehangu'u profiadau. Golyga hyn oll ffurfioli ac adeiladu ar lawer o gydweithio sydd eisoes wedi digwydd.

- Gan fod sefydlu ffederasiwn uchelgeisiol o'r fath yn fentr gyffrous sydd yn cyd-fynd a llawer o themâu Llywodraeth y Cynulliad – o ran cydweithio ar draws oedrannau, sectorau a ffiniau sirol ac o ran rhesymoli – gall fod yn ymgeisydd addas iawn ar gyfer buddsoddi o dan y drefn newydd. Gallai gweithgor o lywodraethwyr – ynghyd a Chyngor Gwynedd – adnabod anghenion datblygu safle Ysgol Y Berwyn yn arbennig i'w addasu at ddefnydd ehangach gan ysgolion eraill y ffederasiwn, gan bartneriaid o blith y colegau ac mewn modd a fyddai'n galluogi defnydd cymunedol sylweddol o adnoddau newydd – boed yn addysgol neu'n ddiwylliannol o ran theatr. Gallai arddangosfeydd diwylliannol fod hefyd yn rhan o atyniad twristaidd.
- Gwelir felly fel y gallai ffederasiwn o'r fath o fudd nid yn unig i'r ysgolion pentrefol ond hefyd i dref Y Bala ac i Ysgol y Berwyn fel canolbwynt i'r ffederasiwn ac o ran cynyddu'i statws yn ganolfan addysgol. Byddai creu ffederasiwn o'r fath yn cryfhau teyrngarwch disgyblion cynradd y pentrefi i'r ysgol ac yn gam tuag at ddiogelu niferoedd uwchradd hefyd. Mae'n bwysig gweithredu rhag blaen fel hyn gan fod y Llywodraeth wedi awgrymu'n ddiweddar y gallai fod angen ailystyried hefyd faint o ysgolion uwchradd y mae eu hangen.
- Dylid gweld datblygiad addysgol o'r fath yng nghyd-destun datblygu cymunedol ehangach. O ganlyniad, dylai'r gweithgor o lywodraethwyr a chynghorwyr ymchwilio i bosibiliad ceisio arian Ewropeaidd ac o gronfeydd eraill heblaw am Addysg Statudol i wireddu'r cynlluniau ac uwchraddio'r adnoddau gan eu bod i'w defnyddio gan gymuned ehangach.
- Dylid gweld datblygiad o'r fath hefyd yng nghyd-destun datblygu polisi leuenctid ehangach. Yn gyfochrog a'r datblygiad addysgol, dylid sefydlu Fforwm leuenctid Penllyn fel adran hanfodol o Bartneriaeth Penllyn gyda chyfrifoldeb dros drafod datblygiadau yn y cymunedau lleol fel bod yr ieuenctid yn teimlo mwyfwy fod tynged y cymunedau yn eu dwylo nhw. Dylai'r cwricwlwm lleol yn y ffederasiwn adlewyrchu hyn ac ymwneud â nifer o brosiectau lleol.

Dyna'r drefn addysgol orau er gwasanaethu cymunedau Penllyn yn gyffredinol. Tu fewn i drefn o'r fath, mae angen dyfeisio'r dulliau o wneud y defnydd mwyaf o'r ysgolion ym mhob cymuned. Bydd yr union ddefnydd yn amrywio o gymuned i gymuned yn ol amgylchiadau'r adeilad a'i adnoddau ac anghenion y gymuned. Mae'r neuadd/ysgol yn Parc eisoes yn bartneriaeth cymuned ac ysgol gyda chyfrifoldeb arbennig gan y pennaeth.. Gallai'r ffederasiwn ystyried naill ai gydlynu ymdrechion i ehangu defnydd cymunedol o'r ymdrechion, neu fe ellid denu incwm ychwanegol trwy fod pennaeth yn hybu menter leol neu ddatblygiadau twristaidd. Mae angen bod adrannau o'r Cyngor ac asiantaethau cyhoeddus eraill hefyd yn gwneud defnydd llawn o unrhyw gapasiti sbar ac adnoddau mewn ysgolion – trwy weithdai hybu menter a thrwy ystyried fod swyddogion yn gweithio allan o ysgolion yn hytrach na theithio at bencadlys canolog, a bod asiantaethau'n llogi gofod mewn ysgolion. Bydd gwahanol bosibiliadau'n addas at wahanol ysgolion. Dylid trefnu cyfarfod cymunedol ym mhob ysgol i sefydlu gweithgor i lunio rhaglen ar gyfer y defnydd helaethaf o adeilad ac adnoddau'r ysgol unigol.

3. Tai fel sylfaen i'r cymunedau

Mae egwyddorion polisiâu tai Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ym maes tai yn cael eu disgrifio a'u hesbonio yn y Llawlyfr Deddf Eiddo (2005), ac yn seiliedig ar yr egwyddor o drin tai fel cartref yn hytrach nac adnodd economaidd. Mae'r rhain yn cynnwys asesu'r angen lleol am dai, sicrhau tai ar rhent ac i'w prynu am brisiau teg, cymorth i brynwyr tro cyntaf, rhoi blaenoriaeth i bobl leol, cynllunio i'r gymuned ac ailasesu caniatâd cynllunio blaenorol. Mae'r pwyntiau penodol canlynol yn seiliedig ar farn aelodau o gymunedau Penllyn ynghylch sut y gellid diwygio'r drefn bresennol fel bod rheolaeth gymunedol ar dai. Mae rhai argymhellion sy'n gyffredin i holl ardal Penllyn, ac eraill sy'n gweddu i'r cymunedau unigol.

Tai ar werth

Mae angen mwy o dai ar werth ym mhentrefi gwledig Penllyn ar gyfer pobl ifanc yn benodol. Y mhlwyf Llanguwer, mae angen tai o 2-3 llofft sydd yn fforddiadwy i bobl sydd yn gweithio yn yr ardal. Nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu ym mhob man, yn Llanuwchllyn er enghraifft, mae nifer o dai ar werth eisoes, sydd ddim yn gwerthu oherwydd eu prisiau uchel ac yn Llanfor, mynegwyd y byddai rhaid i unrhyw dai newydd fod ar gyfer pobl leol yn unig. Mae angen mecanwaith i sicrhau fod prisiau tai adlewyrchu'r cyflogau sydd ar gael yn lleol, yn hytrach na phris y farchnad. Gallai'r Awdurdod Lleol sicrhau bod hyn yn cael ei gynllunio, a bod cwmnïau'n cael eu gwahodd i dendro am y gwaith o godi'r tai i'w gwerthu yn unig. Mae angen sicrhau bod gweithwyr amaethyddol, sydd yn gyfran fawr o'r bobl ifanc sydd am aros yng nghymunedau Penllyn, yn cael mynediad at dai fforddiadwy, a hynny trwy godi cyfyngiadau ar ffermwyr mewn cymuned fel Parc rhag adeiladu ar eu tir eu hun (yn y Parc Cenedlaethol) ar gyfer aelodau'r teulu. Gellid sicrhau nad oes cam-ddefnydd o drefniant o'r fath yn y cytundeb i godi ty. Dylai datblygwyr masnachol orfod gwerthu am bris fforddiadwy, a'u cynnig ar y farchnad leol yn gyntaf, yna yn rhanbarthol, ac yna ar y farchnad ehangach os nad ydynt yn cael ei werthu (fel a gynigir yn Nghynllun Datblygu Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).

Tai ar rent

Mae angen mwy o dai ar rent ar gael i bobl ifanc sydd am aros yn eu cymunedau. Yn ddelfrydol, dylid sefydlu hawl statudol i gartref a fyddai'n sicrhau bod cartref ar rent ar gael i unrhyw un sydd ei angen. Mae tystiolaeth barn yn dangos y byddai hyn yn sicrhau bod pobl ifanc yn aros ym mhentrefi Penllyn yn hytrach na symud oddi yno i drefi mwy. Eto, fel yn achos tai ar werth, mae angen rhent sydd yn addas ar gyfer cyflogau sydd ar gael yn lleol. Hyd nes y daw deddfwriaeth o'r fath, mae angen mentrau cymunedol.

Mae Cynllun Tai Sylfeini yn Llanuwchllyn yn dangos arweiniad a phatrwm y gellid ei efelychu ym mhentrefi eraill Penllyn. Yma codwyd nifer o dai ar dir y Cyngor er mwyn eu rhentu neu eu gwerthu am bris fforddiadwy i bobl leol. Os yw'r tai yn cael eu prynu, yna bydd yn rhaid eu gwerthu am bris cymharol fforddiadwy, a'i gynnig ar y farchnad leol yn gyntaf, yna yn rhanbarthol, ac yna ar y farchnad ehangach os nad yw'n cael ei werthu (fel a gynigir yn Nghynllun Datblygu Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri). Yr Awdurdod Lleol fydd yn berchen y tir beth bynnag fydd defnydd y ty, felly mae yna elfen o ddeiliadaeth hyblyg yn y

cynllun yma eisoes. Yn Llanuwchllyn, mae 7 llain o dir yn weddill lle gellid adeiladu tai. Mae'r sefyllfa economaidd gyfredol wedi rhwystro pobl rhag manteisio ar hyn. Mae hyn yn tanlinellu'r angen am gynllunio gan yr Awdurdod Lleol sydd ddim yn ddibynnol ar newidiadau'r farchnad.

Dylai fod trefniant arbennig ar gyfer unedau tai ar gyfer pobl ifainc gyda datblygiadau bychain a phwrpasol. Gallai olygu fod 3 fflat mewn un ty tan berchnogaeth gymunedol a'u llogi i bobl leol. Mewn cymuned bentrefol, byddai'r galw am fflatiau pobl ifainc – fel y niferoedd mewn ysgolion – yn mynd i fyny ac i lawr. Pan na byddai galw gan bobl ifainc leol am logi fflat, gellid eu gosod i dwristiaid tan system dwristiaeth gymunedol gan ddenu incwm i sybsideiddio rhent y fflatiau i bobl ifainc lleol.

Mae angen i system bwyntiau cymdeithasau tai adlewyrchu pwysigrwydd cadw pobl leol yn eu cymunedau. Mae tystiolaeth bod trigolion Penllyn yn credu y dylai pobl leol cael blaenoriaeth wrth geisio am dai cyngor/cymdeithasol.. Mae hyn yn bwynt penodol sydd yn codi gan drigolion ym mhob cymuned lle holwyd pobl ym Mhenllyn. Mae yna deimlad cryf bod problemau ardaloedd eraill (e.e. ardaloedd yn ninasoedd Lloegr) yn cael eu datrys trwy eu symud i ardaloedd yn nghefn gwlad Cymru, wrth i systemau pwyntiau tai cymdeithasol flaenoriaethu pobl o'r tu allan yn hytrach na phobl leol. Rydym yn cydnabod bod problemau digartrefedd enbyd yn bodoli o ganlyniad i'r system gyfalafol mewn nifer o ddinasoedd yng Nghymru a Lloegr, ac mewn rhai achosion (e.e. achosion o drais yn y cartref) ei bod yn gwbl angenrheidiol symud unigolion o'u cymunedau. Yn gyffredinol fodd bynnag, rydym yn credu mai'r ffordd fwyaf cynaliadwy o ddatrys problemau yn ymwneud â thai yw yn y cymunedau eu hunain. Mae hyn yn decach ar yr unigolion dan sylw, ac ddim felly yn creu gwrthdaro rhwng anghenion pobl leol a mewnfudwyr.

Lle bo hynny'n briodol, dylai cynlluniau deiliadaeth gyfun a hyblyg fod ar gael, lle bod cyfran o eiddo yn medru cael ei brynu gan yr Awdurdod Lleol pan fo'r deiliad yn methu talu morgais. Lle bo cynlluniau tebyg i Gynllun Tai Sylfeini yn Llanuwchllyn yn bodoli, dylai'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod unrhyw dir sydd yn rhan o'r cynllun ac sydd yn eiddo i'r Awdurdod Lleol gael ei eithrio o'r gwerthiant i Gymdeithasau Tai.

Tai gwag a thai haf

Mae nifer sylweddol o dai haf yn ardal wledig Penllyn, yn enwedig y tu allan i ffiniau'r pentrefi (e.e. Llanuwchllyn a Llanguywer). Yn nghwm Llanguywer mae 6 allan o 8 tŷ yn dŷ haf. Yn Llanfor mae yna 4 tŷ sydd yn cael eu ystyried yn dai haf, 3 yn cael eu gosod gan berson lleol ac un yn dŷ haf sydd yn berchen i unigolyn sydd ddim yn lleol. Ymddengys bod y farn yn lleol yn ystyried y tri sydd yn cael eu gosod gan unigolyn lleol yn cyfrannu at yr economi dwristaidd gan eu bod yn cael eu gosod drwy gydol y flwyddyn tra bod y tŷ haf 'traddodiadol' yn cael ei weld fel rhywbeth sydd yn niweidio'r gymuned.

Mae prisiau'r tai yma y tu hwnt i gyflogau pobl ifanc leol. Lle bo tai haf mewn cymuned wledig ym Mhenllyn ac ddim yn cael eu defnyddio fel bythynnod gwyliau ar rent trwy gydol y flwyddyn (ac felly ddim yn cyfrannu i'r economi leol), a lle nad oes modd i'r Awdurdod Lleol

fynnu eu prynu, dylai treth cyngor adlewyrchu'r gwahaniaeth yma rhwng pris a chyflogau, a dylai'r dreth fod o leiaf ddwbl y dreth arferol.

Mae tystiolaeth o Llanfor a Llangywer yn awgrymu nad oes yna dai gwag yn y pentrefi eu hunain, ond bod rhai y tu allan i'w ffiniau. Lle bo tai gwag, dylid bod hawl a chyllid gan yr Awdurdod Lleol i'w droi yn dŷ ar gyfer ei rentu neu ei werthu am bris fforddiadwy i bobl leol.

Lle na bydd pwerau cyfredol i weithredu, dylai cymunedau lleol wneud eu llais yn hyglyw i Lywodraeth Cymru'n gofyn am hawliau o'r fath.

Rheolau cynllunio

Mae tystiolaeth o gymunedau Llanfor, Llangywer a Llanuwchllyn yn dangos bod dyhead yn lleol am lacio'r rheoliadau cynllunio er mwyn sicrhau bod pobl ifanc lleol yn medru aros yn eu cymunedau, ac yr ydym yn falch o weld fod Llywodraeth y Cynulliad yn symud i'r cyfeiriad hwn. Ar hyn o bryd mae cyfyngiad pris uchel tir ac adeiladu ar allu pobl i adeiladu cartref yn cael ei waethygu gan reoliadau cynllunio sydd yn milwrio yn eu herbyn. Tra bod angen system gynllunio a rheolau clir er mwyn gwarchod yr amgylchedd er enghraifft, dylid ystyried ceisiadau cynllunio gan bobl leol mewn modd hyblyg. Er mwyn galluogi pobl ifanc lleol, yn enwedig rheiny sydd a barhau i weithio yn y diwydiant amaethyddol, i aros yn eu cymunedau dylai rheolau cynllunio fod yn fwy hyblyg lle bod adeiladu tai ar dir y teulu yn y cwestiwn. Ni ddylai bod gwaharddiad blanced yn erbyn adeiladu tai ar dir amaethyddol y teulu os fydd hynny'n galluogi pobl i aros yn eu cymuned a chyfrannu at yr economi leol. Yn yr un modd, dylid defnyddio mwy o hyblygrwydd wrth ddelio gyda cheisiadau am ganiatâd cynllunio wrth ymyl y ffin ddatblygu mewn pentrefi. Dylid dileu'r gwrth-ddweud presennol sydd yn bodoli ym maes cynllunio o ran newid defnydd adeiladau amaethyddol. Yn bresennol, mae modd cael caniatâd cynllunio er mwyn newid beudai ac ati i fod yn dai gwyliau, ond nid i'w droi yn gartref. Dylai bod mecanwaith mewn lle i sicrhau bod trigolion pentrefi'n medru profi'r angen am dai fforddiadwy fel rhan o'r system gynllunio, a dylai hyn fod yn rhan o strategaeth gynllunio ac ymchwil gyson yr Awdurdod Lleol. Lle bo angen yn cael ei brofi, dylid rhoi'r hawl i unigolion fynd ati i godi/addasu tai, neu wahodd datblygwyr i dendro am y gwaith penodol hynny, fel bo'n briodol. Dylai pob cais cynllunio gan bobl leol fod o dan amodau amgylcheddol clir a chadarn, yn gofyn ar i bob datblygiad newydd fod yn 'wyrdd' h.y. eu bod yn defnyddio deunyddiau amgylcheddol-gyfeillgar o ffynonellau lleol ac yn cynnwys systemau ynysu a chynhyrchu ynni amgen a blaengar. Dylid sicrhau bod cyllid ar gael er mwyn sicrhau hyn ar ffurf cymorthdaliadau a chymorth technegol a dylai Awdurdodau Lleol hybu gweithgaredd gydwethredol mewn pentrefi unigol.

Dylai Cynghorau Bro a chyfarfodydd cymunedol ffurfio argymhellion fel y rhain ar gyfer y cymunedau unigol ac adnabod pa rannau o'r cynlluniau y gellir pwysu ar Awdurdodau i'w gweithredu ac ar gyfer pa rannau eraill y mae angen pwysu ar y Llywodraeth am fwy o rymoedd.

Ffactorau eraill

Mae economi gref a swyddi sydd yn talu cyflogau da yn hanfodol ar gyfer cymunedau cynaliadwy. Er mwyn sicrhau bod modd i bobl ifanc lleol wireddu eu dyheadau o aros yn eu cymunedau a gweithio mewn swyddi da, mae dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol a chyrff lleol eraill i gefnogi hyn. Gellid gwneud hyn trwy ddatganoli swyddi ac adrannau llywodraethol o Gaernarfon i drefi Dolgellau a Bala. Dylid hefyd sicrhau bod gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus integredig yn gwasanaethu gweithwyr sydd yn dymuno byw mewn pentref gwledig ond gweithio mewn tref. Dylid hefyd hyrwyddo, a manteisio ar, dechnoleg uwch er mwyn galluogi amodau gweithio hyblyg sydd yn galluogi unigolion i weithio yn rhannol o'u cartrefi.

4. Sail Economaidd i'n Cymunedau

Cyflwyniad

Mae lle i gydnabod fod Cyngor Gwynedd am gynnwys yn ffurfiol ardaloedd gwledig Dwyfor a Meirionnydd yn Strategaeth Datblygu Gofodol Gogledd Orllewin Cymru. Lle yn flaenorol rhoddwyd y sylw i gyd ar lannau'r Fenai, erbyn hyn mae'r strategaeth yn ystyried anghenion gweddill y rhanbarth hefyd, yn cynnwys datblygu ardaloedd gwledig:

1.6. Mae'r diweddariad o'r Cynllun Gofodol yn gam ymlaen. Yn Eryri a Môn, dynodwyd ardal o Borthmadog i Bwllheli yn ardal ffocws ychwanegol. Yng Nghanol Cymru, dynodir ardal Meirionnydd yn glwstwr o brif aneddiadau allweddol gan gydnabod pwysigrwydd rhwydwaith trefi a prif bentrefi'r ardal.

Rydym yn gefnogol o'r strategaeth ar y cyfan, ac yn croesawu'r ffocws newydd ar sicrhau twf ardaloedd Cymraeg ei hiaith, a'r sylw a roir ar gynnal yr iaith a defnydd yr iaith a'r diwylliant fel rhannau naturiol ac annatod o dwf economaidd. Serch hynny, er fod y strategaeth yn sôn am yr angen i ddenu pobl yn ôl i ardal eu magwraeth trwy sefydlu tasgluoedd, neu leoli myfyrwyr ôl-radd mewn gweithluoedd gwledig a chynlluniau eraill tebyg, ac mae'r strategaeth hefyd yn edrych ar ffyrdd o ddatblygu sgiliau, a wynebu yr hinsawdd economaidd presennol trwy cael pobl yn ôl i'r gwaith, nid yw'r strategaeth eto yn cynnig syniadau diriaethol ar sut mae sicrhau parhad a thwf cymuned Gymraeg megis cymunedau pum plwy Penllyn. Mae Cyngor Gwynedd yn tueddu i weld datganoli yng nghydestun hybu elfen o dwf yn nhref Y Bala, heb amgyffred fod angen hefyd strategaeth ddatblygu gymesur ag anghenion y cymunedau pentrefol.

Credwn mai'r unig ffordd o wneud hynny yw galluogi'r cymunedau lleol i fanteisio ar gryfderau yr adnoddau lleol i gynhyrchu a chreu er mwyn sicrhau arian newydd i'r ardal, fydd yn ei dro yn rhoi pwrpas unwaith yn rhagor, ac i beidio a gadael i'r economi i fod yn orddibynol ar gyflogwyr mawr rhyngwladol nac ychwaith gor-bwyslais ar un rhan o ddiwydiant. Credwn hefyd fod gorddibyniaeth ar y sector gyhoeddus a'r sector wasanaethu yn creu trafferthion i ddyfodol cymuned Gymraeg hyfyw, gan mai dyma'r sectorau sydd yn fwyaf agored i grebachu a cholli cyflogaeth mewn dirwasgiad. Mae gorddibyniaeth ar unrhyw un o'r elfennau yma yn debygol o gael niwed andwyol ar economi ardal wrth i economi grebachu. Rhaid i economi leol fod yn ddigon amrywiol i allu addasu ar gyfer newidiadau mewn hinsawdd economi rhyngwladol.

Serch hynny credwn fod nifer o egwyddorion craidd a syniadau eraill a gynigir y strategaeth yn rhai y gellir adeiladu arnynt er mwyn creu cymuned Gymraeg cynaliadwy ym mhym plwy Penllyn

Clytwaith o gymunedau cyd/rhyng-ddibynol.

Mae'r cynigion yma yn edrych yn benodol ar economi yng nghyd-destun y sector breifat, ag eithrio y sector wasanaethau. Daw twf a llwyddiant y sector wasanaeth yn sgil llwyddiannau busnesau eraill, felly ni fydd y cynllun yma yn edrych ar gyfleon er enghraifft agor siop torri gwallt; agor siop bapurau; caffi; ac yn y blaen; ond yn hytrach ar bethau all ddod ag arian newydd i fewn i'r ardal, gan alluogi busnesau o'r fath i ddatblygu yn eu sgil. Nid dilorni y sector wasanaethu mohonom chwaith – mae lle pwysig iddo, ond yn hytrach chwilio am gyfleon eraill fydd yn caniatáu i'r sector yma ddatblygu a chryfhau ymhellach.

Ymhellach credwn mai dim ond trwy gydweithio y gall cymuned Gymraeg hyfyw barhau. Mae grym globaleiddio yn ein herbyn, ac yn wyneb twf cwmnïau mawr yn llyncu cwmnïau llai, ac yn gwasgu cwmnïau llai allan o'r farchnad, bydd gan fusnesau bach cefn gwlad Cymru gwell siawns o wynebu'r dyfodol trwy gydweithio ac ymddwyn fel un endid.

Credwn nad trwy ddenu cwmnïau mawrion yn cyflogi nifer o bobl y mae sicrhau parhad cymuned. Gwendid amlwg hyn yw o ganlyniad fod y gymuned gyfan yn mynd yn orddibynol ar rym marchnadoedd y tu hwnt iddi, nad oes ganddi unrhyw ddylanwad arnynt, ac y gall newid ffasiwn yn America dyweder, neu gwmp gwerth y bunt olygu colli 50 neu fwy o swyddi – swm cymharol fach mewn dinas fetropolitan, ond ergyd handwyol i gymuned wledig Gymreig.

Credwn felly mai trwy rwydwaith o gwmnïau cydweithredol yn gweithredu fel un y mae sicrhau dyfodol economaidd cymunedau mewn amgylchedd gyfalafol. O gael casgliad o wahanol gwmnïau cydweithredol, a phob cwmni yn cynnig y gallu i ddarparu rhagor nag un cynnyrch, neu elfen i gynnyrch, a'r casgliad yma yn creu rhwydwaith, credwn y bydd gan gymuned wledig gwell siawns o wynebu corwyntoedd economaidd a ffactorau rhyngwladol y tu hwnt i'w rheolaeth. Byddai rhwydwaith o'r fath, a luniwyd o gasgliad o unedau unigol yn darparu rhagor nag un elfen, yn gallu dangos hyblygrwydd i addasu eu harferion a chynnyrch yn unol a'r gofyn.

Cynigiwn felly fodel o'r fath ar gyfer cymunedau Penllyn – gyda gwahanol fentrau mewn gwahanol gymunedau pentrefol, ond yn cefnogi'i gilydd a sector gwasanaethau'n tyfu i'w cefnogi. Dylai fod Hwylusydd Datblygu Cymunedol yn gysylltiedig a Ffederasiwn Ysgolion

Penllyn, yn defnyddio adnoddau'r ysgolion i drafod ac hyfforddi ar gyfer datblygiadau potensial, a'r swyddog ei hun yn gweithio o swyddfa wedi'i lleoli oddifewn i un o'r ysgolion.

Byddai hefyd y ffaith fod y deunydd craidd a gynhyrchir yn elfennau canolog i fywyd dynoliaeth (adnoddau ynni, bwyd, diod, dillad, a chartref) yn golygu y bydd rhan helaeth o gaffael y gymuned yn dod o ddarpariaeth leol.

Yr enghraifft amlycaf o gymdeithas gydweithredol ar waith oedd un yr hen fferm fach Gymreig a oedd yn britho cefn gwlad Meirionnydd hyd yn gymharol ddiweddar. Roeddynt yn cynhyrchu amryw o gnydau, gyda'r gwr a'r wraig a'r plant yn cyfrannu cig, menyf, wyau, a chnwd i'r farchnad leol. Roedd hi'n fywyd anodd, yn ddi-os, heb fanteision technoleg fodern, ond roedd amrywiaeth yr uned amaethyddol yn golygu ei bod a gwell siawns o wynebu her ariannol, ac roedd ffermydd yn troi at ei gilydd am gymorth ar adegau prysur ac anodd.

Mae ffermydd presennol Cymru, tra yn parhau i fod yn gefn i'w gilydd, yn cael eu gorfodi i fasnachu mewn un cynnyrch yn unig, sef cig coch. Yma ym Meirionnydd mae'r mwyafrif o ffermydd yn llwyr ddibynnol ar gynhyrchu defaid ac wyn. Pe ostwng y galw neu'r pris am y cynnyrch, yna cai oblygiadau handwyol ar y diwydiant gyfan yn y sir. Mae ffermydd bach eisoes yn diflannu, a ffermydd mwy yn cymryd eu lle. Mae'r ffermwr yn amlach na pheidio hefyd yn gorfod gweithredu fel busnes unigol (gyda chymorth clodwiw gan y ddwy Undeb sydd yn ymladd eu cornel). Wrth gyflenwi anghenion lleol yn unig - gwestai lleol, neu gigyddion lleol, dyweder, yna gall y ffermwr drafod yn hyderus gyda'r prynwyr a chael y gwerth gorau am ei gynnyrch. Yn y byd sydd ohoni fodd bynnag, gyda archfarchnadoedd rhyngwladol yn penderfynu gwerth cynnyrch amaethyddol, mae'r ffermwr unigol yn ddiymadferth. Yn wir, mae posib dweud a chryn hyder nad oes yr un fferm cig coch bellach yn gallu cynhyrchu elw, maent yn llwyr ddibynnol ar gymhorthdal o'r pwrs cyhoeddus. Mae hyn mewn cyferbyniad llwyr i'r diwydiant cynhyrchu cig moch a ffowls. Dim ond penderfyniad gwleidyddol ar ran Senedd Ewrop sydd ei hangen i leihau cymhorthdal amaethyddiaeth a gall ddinistrio hanner economi Penllyn a Meirionnydd dros nos. Ond mae amaethyddiaeth yn parhau i fod yn gyflogwr mawr yn yr ardal ac yn cyfrannu yn sylweddol at yr economi leol, trwy ffermydd, cwmnïau cyflenwi, contractwyr, ayb

Ynghlwm ag amaethyddiaeth mae cynhyrchu bwyd a diod yn gyflogwr sylweddol yn yr ardal, gyda Berwyn Bakery a Gwynedd Confectionary yn ddau gyflogwr mawr pwysig yn allforio eu cynnyrch. Mae cwmni Cig Oen Aran yn enghraifft o fferm sydd wedi arallgyfeirio yn llwyddiannus i gynhyrchu a gwerthu cig amrwd a pharod yn uniongyrchol i'r cwsmer.

Twristiaeth yw'r cyflogwr mawr arall ym Mhenllyn. Mae twristiaeth yr ardal yn ddibynnol ar yr amgylchedd naturiol, gyda rafftio, beicio, a cherdded yn denu nifer i'r ardal. Cwmnïau amlwg yw Rheilffordd Llyn Tegid, Glan Llyn (Yr Urdd), White Water rafting Tryweryn; Go Wet; Bala 4x4; Pale Wood; Ewe-Phoria/Adventure Mountain; a nifer o westai, gwely a brecwast, meysydd campio, ac unedau busnes bychain arall sydd yn rhannol neu llwyr ddibynnol ar dwristiaeth (mae gwefan Partneriaeth Twristiaeth Bala yn dda am gyflwyno yr hyn sydd yn yr ardal, ond mae'n bryder ei fod yn uniaith Saesneg gyda'r ochr Gymraeg heb ei gyfieithu).

Mae diwydiannau preifat eraill yn gyflogwr sylweddol ym Mhenllyn, gyda chyflogwyr mawr fel Aykroyds, sydd nid yn unig yn cyflogi nifer lleol ond hefyd yn rhoi yn ôl i'r gymdeithas, Gwersyll Yr Urdd Glan Llyn; a nifer o gyflogwyr llai.

Nid oes diwydiannau mawr arall yn yr ardal, ond mae diwydiannau eraill yn gyflogwyr sylweddol, megis y diwydiant adeiladu gyda chwmnïau tywod (Cwmni Gro), cyflenwyr deunydd adeiladu (Travis Perkins), sgipiau (Bala Skip Hire) ac adeiladwyr, gosodwyr (Glantryweryn), seiri coed, plymwyr; a'r diwydiant moduro megis Saracens, Moduron Bala, Bala Body Repairs.

Fel y saif felly mae rhan sylweddol o economi yr ardal yn ddibynnol ar farchnad cig coch; mae prif gyflogwr preifat arall yr ardal, twristiaeth, yn ddibynnol ar ffactorau sydd i raddau helaeth y tu hwnt i'w rheolaeth gyda unrhyw un o'r ffactorau canlynol yn gallu cael effaith niweidiol: punt cryf, tywydd gwael, dirwasgiad yn golygu torri yn ôl ar bethau moethus fel gwyliau. Wedi dweud hynny mae Penllyn mewn sefyllfa cryf i wynebu o leiaf un o'r bygythiadau yma, sef y tywydd - beth bynnag fo'r tywydd gall Penllyn ddenu ymwelwyr gyda golygfeydd godidog, a gweithgareddau tywydd gwlyb fel beicio mynydd a rafftio.

Prif gyflogwr arall yr economi yw'r sector gyhoeddus. Gall y sector gyhoeddus ond parhau i gyflogi unrhyw nifer sylweddol o bobl os ydyw gweddill yr economi yn bwydo i fewn iddo (ar lefel genedlaethol a llywodraeth ganolog).

Credwn y dylid rhoi'r blaenoriaeth ar gynhyrchu. Daw pethau eraill yn sgil hyn. Credwn hefyd yn dylwn edrych ar y cyfoeth o adnoddau naturiol sydd gennym a'u defnyddio fel sail i ddatblygu diwydiannau cynhyrchu llewyrchus lleol. Gwelwn fod yna felly sawl cyfle i ddatblygu yr economi yn lleol ac amryw o feysydd twf.

Meysydd Twf:

Amaethyddiaeth

Yn draddodiadol mae ffermydd Meirion wedi cael eu rhannu rhwng y plant yn dilyn ymddeoliad y rhieni. Mae ffermydd Penllyn wedi medru cynnal yr arfer yma yn eithaf llwyddiannus yn wyneb twf y ffermydd mawr, gyda nifer ohonynt yn parhau yn ffermydd teuluol. Serch hynny mae nifer (fechan) o ffermydd Penllyn hefyd yn ffermydd sydd yn berchen i ystadau, ystâd Rhiwlas yw'r amlycaf, a Chyngor Gwynedd yn ogystal. Gyda thrafferthion ariannol yr Awdurdod Lleol mae'n annhebygol y bydd yr Awdurdod yn edrych i ddarparu rhagor o ffermydd rhent, yn wir y tebygrwydd yw y byddant yn edrych i werthu ffermdai fel modd i adennill arian. Yr her sy'n wynebu amaethyddiaeth yw'r nifer ffermydd sy'n dod i derfyn yn dilyn ymddeoliad y ffermwr, heb olynydd. Mae'n werth nodi yma bod yna restr hir o bobl yn aros i dderbyn ffermydd Cyngor.

Gellir dweud fod y diwydiant cig coch wedi bod yn dda i Benllyn dros y blynyddoedd, ac felly na ddylid diystyru ei bwysigrwydd nac ychwaith ei gyfraniad i bum plwy Penllyn. Ond nid yw hynny o reidrwydd yn wir. Mae'r ddibyniaeth llwyr ar gig coch yn ddatblygiad cymharol diweddar, yn yr hanner can mlynedd diwethaf. Yn yr amser hynny mae nifer y ffermydd wedi disgyn yn sylweddol, mae'r nifer sy'n cael ei gyflogi gan amaethyddiaeth wedi disgyn yn arswydus, ac mae nifer o sgiliau traddodiadol gwledig wedi mynd ar goll. Yn ol Cymdeithas y Pridd, y mae hyn yn rhan o ddirywiad mwy cyffredinol (gw. ATODIAD 1)

Nid yw hyn yn dibrisio gwerth y diwydiant amaethyddol. Mae parhad y diwydiant amaethyddol yn greiddiol i barhad cymunedau Penllyn, ac mae'r iaith Gymraeg ynghlwm â hynny. Mae clybiau a chymdeithasau'r cylch yn frith o ffermwyr ac aelodau teuluoedd fferm. Y pryder yw fod y diwydiant yn or-ddibynol ar gig coch ac yn mynd i ddiflannu os na ellir rhoi cyfeiriad newydd i'r diwydiant i ffwrdd o'r ddibyniaeth llwyr yma.

Mae'n galonogol gweld un fferm yn Llanuwchllyn yn mentro i arallgyfeirio i gynhyrchu llaeth. Er fod prisiau llaeth yn cael eu penderfynu i raddau helaeth gan rym yr archfarchnadoedd, mae'r farchnad ar gyfer cynnyrch llaeth yn datblygu yn sydyn, yn enwedig yn y dwyrain pell a China gyda'r cyfoethogion newydd yn talu crocbris am gaws. Mae cwmnïau megis Llaeth y Llan yn Llanefydd a Chaws Cenarth yn Nyffryn Teifi yn enghreifftiau amlwg o ffermydd sydd wedi arall gyfeirio yn llwyddiannus i gynhyrchu bwyd allan o gynnyrch llaeth, a hyn yn dilyn cymorth/hyfforddiant gan Asiantaeth Antur Teifi. Amser a ddengys os yw'r fenter newydd yn Llanuwchllyn am brofi yn llwyddiannus.

Amaethyddiaeth - ehangu gwerth cynnyrch craidd

Fel sydd wedi ei nodi eisoes mae amryw o ffermwyr wedi profi i fod yn hynod lwyddiannus wrth arall gyfeirio. Mae Cig Oen Aran, Ewe-Phoria, Fferm Braich Du, Llaeth y Llan (Llanefydd) yn rhai enghreifftiau da lleol sydd wedi arall gyfeirio i ddiwydiannau gwahanol yn llwyddiannus. Pan yn meddwl am arall gyfeirio mae tuedd gennym i feddwl am newid diwydiant, fel yr enghreifftiau uchod. Ond mae sawl enghraifft mewn ardaloedd eraill o Gymru wledig o ffermydd bach yn datblygu crydau i'w gwerthu eu hunain.

Hyd nes 50 mlynedd yn ôl roedd pob fferm fach yn cadw cymysgedd o ddefaid a gwartheg, mochyn, ieir, ac yn tyfu crydau a llysiau. Mae'r genhedlaeth hyn yn dal i gofio ffermydd Penllyn yn tyfu crydau megis ceirch a gwenith. Mae posib gweld nifer o ffermwyr bychain mewn marchnadoedd ffermwyr ar hyd a lled y wlad heddiw yn gwerthu llysiau, a chynnyrch cartref, megis menyn, wyau, jam, siytni ayb.

Nid yw'n farchnad fawr, ond mae'n farchnad sy'n cynyddu, a gyda dirwasgiad economaidd rhyngwladol yr ochr bositif yw fod mwy o bobl yn gofyn am gynnyrch lleol (Trend Spotting KPMG 2009).

Rhaid i'r diwydiant Cig Oen yn benodol edrych i ddatblygu ei chynnyrch yn well. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i friff y cynllun yma, ond byddai yn cael datblygiad uniongyrchol ar economi Penllyn pe byddai'r diwydiant yn gwneud hynny. Rhan o lwyddiant cig moch yw yr amrywiaeth o gynnych a geir allan o un anifail – Bacwn, Gamwn, Ham, Selsig, Ffagots, Scotch Egg, Pork Scratchings, Rholion Selsig, Salami, Offal, Pwdin Gwaed, ayb. Mae hyn yn mynd law yn llaw a argaeledd bwydydd parod a chynnydd porc fel rhan o'r dewis yma o fwydydd sydd wedi eu paratoi ac yn addas fel byrbryd. Cymharwch hyn gyda'r diffyg amrywiaeth a geir gan gig oen.

Amaethyddiaeth – partneriaethau cydweithredol

Er gwaethaf grym arswydus yr archfarchnadoedd dros ein cynhyrchwyr bwyd, a chyndynrwydd cyffredinol pobl i wario prisiau teg am eu bwyd, mae yna enghreifftiau o rhai archfarchnadoedd yn ymrwymo i gynorthwyo cynhyrchwyr bach. Treialodd Asda brosiect i ariannu swyddogion pwrcasu lleol i gydlynu pryniant gan gynhyrchwyr bach ar hyd a lled Prydain. Er enghraifft, yn lle bo un cynhyrchwr mawr yn cyflenwi bresych, roedd y cydlynnydd yn cysylltu a nifer o gynhyrchwyr bychain gan ofyn iddyn nhw gyflenwi y swm yr oeddynt wedi nodi eu bont yn gallu gwneud mewn trafodaethau cynharach. Mae datblygiadau o'r fath i'w croesawu. Eithriad yw hyn fodd bynnag. Credwn felly y dylai amaethwyr ddatblygu partneriaethau cydweithredol, ac nid o reidrwydd ar sail cynnyrch cyffredin. Mae enghreifftiau cynyddol o gwmnïau cydweithredol llwyddiannus, Daioni, Cambrian Organics, Calon Wen, Cwmni Cig Llyn. Rydym yn cydnabod fod yna enghreifftiau o rai methodig hefyd,

yn benodol Dairy Farmers of Great Britain. Cryfder cwmni cydweithredol yw ei fod yn rhoi mwy o rym i'r cynhyrchwr – nid yw ffarmwr yn brwydro brwydr unig wrth ddadlau am bris i'r cynnyrch wrth fod yn rhan o bartneriaeth o'r fath.

Fodd bynnag, credwn y gellir ymestyn y cysyniad o gwmni cydweithredol i gynnwys sawl elfen o'r diwydiant. Er gwaetha'r ffaith fod cwmni cydweithredol laeth yn cael pris gwell i'r aelodaeth, mae'n anodd iawn i'r cwmni wneud unrhyw beth yn wyneb cwmp yn y farchnad laeth. Fodd bynnag, os yw cynhyrchu laeth yn rhan yn unig o gwmni sy'n cynnwys cynhyrchu cig, grawn, llysiau, yna gall cwmni gynnal cyfnod gwael y farchnad laeth hyd nes ei fod yn gwella. Mae cynllun busnes o'r fath yn rhoi fwy o sefydlogrwydd i ffermwyr a mwy o gymhelliad i barhau a buddsoddi ac ysgogiad i'r genhedlaeth iau i barhau a ffermio.

MEYSYDD GWEITHREDU POTENSIAL

- Gellir galw ar i'r llywodraeth leol gyfrannu tir i'r cwmni cydweithredol. Penderfyniad y Cwmni byddai sut y gosodir y tir yma i'w ddefnydd gorau, yn unol a gwybodaeth leol. Awgrymir y gellir defnyddio cyfran o dir i adeiladu tai fydd yn o dan berchnogaeth y cwmni (mae'r cwmni, wrth gwrs, am fod o dan berchnogaeth leol). Gellir gosod y tai allan i aelodau o'r cwmni am bris rhesymol; neu os yw'r tai yn wag, eu gosod allan fel tai gwyliau a chynhyrchu incwm.
- Ni fyddai cynllun cydweithredol o'r fath o reidrwydd yn rhwystro uchelgeisiau unrhyw un i gronni cyfoeth personol. Byddai cyfraniad unigolyn o ddeunydd craidd i'r gronfa gymunedol yn gyfran o'r cyfan, ac felly caiff yr unigolyn yna gwerth arian yr hyn y bydd wedi ei gyfrannu. Y gwahaniaeth yw mai y cwmni cydweithredol fydd wedi gwrthio i gael y pris gorau am y cynnyrch – er lles pob aelod – yn hytrach na'r unigolyn yn brwydro ar ei ben ei hun. Mewn system o'r fath y tebygrwydd yw y bydd yr unigolyn yn cael gwell gwerth am ei gynnyrch o ganlyniad i gael grym y gymuned y tu ôl iddo.
- Byddai angen i gwmni cydweithredol o'r fath gael 'lefi' ar aelodaeth hefyd – dyweder cyfran o'r elw ar ôl treth mewn blwyddyn. Byddai'r lefi yma yn mynd i ffurfio 'banc' lleol, neu Undeb Gredyd, fyddai yn bodoli i wasanaethu'r gymuned yn unig. Gall corff arianol o'r fath gynnig benthyciadau i ddechrau busnes fyddai yn rhan o'r cwmni; cynnig cymorth ariannol i deulu mewn trwbl ayb

Amaeth – torri tir newydd

Mae peryg i'r diwydiant amaethyddol fod yn geidwadol ei natur, ac ymwrthod â datblygu marchnadoedd estron. Wedi'r cyfan mae cyfalaf parod i'w wario ar fentro neu hapfasnach yn beth prin iawn mewn amaethyddiaeth.

Fodd bynnag, credwn bod yr amser yn iawn i alluogi amaethwyr i ddatblygu marchnadoedd newydd a hyn mewn cydweithrediad â'r llywodraeth. Wedi'r cyfan prin iawn yw'r ffermydd cig coch sy'n broffidiol – maent yn llwyr ddibynnol ar gymhorthdal. Mae'n deg gofyn felly oni ddylid rhoi cymhorthdal iddynt ddatblygu marchnad proffidiol, fydd yn ei dro yn lleihau y pwysau ar y pwrs gwladol?

Mae tir, amgylchedd, a chynnyrch Penllyn yn benthyg eu hun yn berffaith ar gyfer y cynnyrch canlynol:

Cywarch: Mae Prifysgol Bangor wedi gwneud gwaith ymchwil trylwyr ar hyfywdra Cywarch fel cnwd. Yr unig rwystr i'w wneud yn broffidiol ar y foment yw pris cludo, ond mae sgôp iddo fod yn broffidiol gyda peth mwy o waith ymchwil. Rhaid pwysleisio yma nad yw cig coch yn broffidiol ychwaith.

Maip: Dywed nad yw tir uchel diffwyth Cymru yn dda i ddim ond tyfu maip. Mae maip wedi datblygu yn un o brif cynhwysion 'feed' anifeiliaid, megis 'maize'. Gellir datblygu'r farchnad yma.

Gwlân: Mae gwlân yn gynnyrch hanesyddol o bwys ym Meirionnydd. Erbyn hyn mae'r pris y mae ffermwyr yn ei dderbyn am wlân yn golygu ei fod yn fwy costus iddyn nhw gael ei wared. Serch hynny mae yna farchnad ar gyfer y cynnyrch gwerthfawr yma, a rhaid ond ei ddatblygu.

Bwyd – Arall

Rydym eisoes wedi cyfeirio at fwyd uchod fel maes twf posib o fewn y diwydiant amaethyddol, ond mae posib i eraill ddatblygu busnesau cynhyrchu bwyd. Mae cynhyrchwyr bwyd lleol i'w gweld yn y marchnadoedd ffermwyr. Hefyd, mae posib datblygu diwydiant diodydd.

Mae dŵr yn adnodd helaeth ym Mhenllyn. Mae'r diwydiant poteli dŵr yn anferthol, ac mae amryw o gwmnïau poteli dŵr yng Nghymru, gyda un o'r lleiaf dros yr Aran ym Mawddwy, Dŵr Cerist. Mae modd arallgyfeirio y diwydiant poteli dŵr hefyd, i gynnwys mathu gwahanol o ddŵr, megis y mae *this water* wedi ei wneud (a gynhyrchir gan sylfaenwyr Innocent).

Marchnad arall sydd ar ei phrifant yn rhyngwladol yw'r farchnad chwisgi. Er nad yw Cymru yn nodedig am ei chwisgi, mae traddodiad o 'fragu' chwisgi yn Frongoch. Mae'r farchnad Sieniaidd ac Indiaidd yn arbennig yn tyfu yn aruthrol yn y farchnad yma.

Mae arwyddion gobeithiol yn y farchnad cwrw chwerw hefyd. Mae'n farchnad yn hynod fach (9% o'r farchnad cwrw) ond mae nifer y bragdai annibynnol yng Nghymru wedi cynyddu yn aruthrol yn y blynyddoedd diwethaf, gyda nifer yn dafardai sydd yn bragu cwrw arbenigol eu hunain. Mae hyn wrth gwrs yn arwydd o hyder a thwf yn y diwydiant, ond mae'n gweld lle am ragor o fragwyr annibynnol. Byddai'n braf profi i'r gwrthwyneb.

Twristiaeth

Twristiaeth Ddiwylliannol

Yn ol yr OECD, twristiaeth ddiwylliannol yw un o'r sectorau twf cyflymaf

(ATODIAD 2)

Mae'r holl "gynwysyddion" ar gael yng nghymunedau Penllyn ar gyfer hybu mentrau llwyddiannus mewn Twristiaeth Ddiwylliannol tan reolaeth y cymunedau lleol. Gellir defnyddio neuaddau ysgolion yn y cymunedau lleol i ddangos ffrwyth y diwylliant lleol gan ganiatau i dwristiaid gyfranogi ohono. Gallai cydlynwyr cymunedol yn yr ysgolion fod yn gyfrifol am hybu'r datblygiadau gan roi addysg yng nghanol yr agenda adfywio. Ar gyfer digwyddiadau mwy, gallai'r cymunedau unigol gyfrannu at ddigwyddiadau mwy yn y dref.

Mae llywodraeth y Cynulliad cenedlaethol wedi datblygu rhaglen benodol i hyrwyddo Twristiaeth Ddiwylliannol. Amcangyfrifir bod twristiaeth ddiwylliannol yn cyfrannu £120m i economi Cymru bob blwyddyn. Cydnabyddir bod ymwelwyr diwylliannol yn gwario mwy nag ymwelwyr cyffredinol. Serch hynny, er awydd y Llywodraeth i hyrwyddo twristiaeth ddiwylliannol, rhan greiddiol o brofiad ymwelydd diwylliannol yw cael profi'r diwylliant hynny'n fyw, a hynny drwy ymweliadau â'r theatr, cyngherddau, gwyliau, arferion diwylliannol (e.e. crefyddol), amgueddfeydd ayb. Fel y saif pethau nid yw Penllyn yn darparu y profiad yma i'r ymwelwyr.

Mae ein harferiad ni o droi cefn ar y traddodiadau yn golygu fod ymweld a Chymru bellach yn cynnig yr un profiad ag ymweld a Lloegr. Yr eironi yn hyn o beth yw mai Llundain yw un o'r cyrchfannau diwylliannol mwyaf poblogaidd yn y byd, gyda'r Theatrau West End, Amgueddfeydd, Gwyliau/Carnifalau.

Os am ddenu ymwelwyr yma rhaid i ni ddathlu a hyrwyddo yr hyn sydd yn ein gosod ar wahân. Mae ymwelwyr diwylliannol yn mynychu gwasanaeth Pabyddol wrth ymweld a'r Iwerddon, yn mynd i'r Synagog wrth ymweld ag Israel, yn ymweld â mynachlogydd Taoistiaeth, Bwdistiaeth wrth ymweld â'r dwyrain pell, yn awyddus i weld seremoni ddawnsio wrth ymweld â Dakota er enghraifft. Faint o ymwelwyr sydd yn cael eu hannog a'u croesawi i wrando ar ganu cynulleidfaol yng Nghapeli Cymru? Y nesaf peth i ddim.

Mae ardal Penllyn mewn sefyllfa ddefnyddol i addasu ei hun ar gyfer ymwelwyr diwylliannol, gyda chyfoeth hanes a thraddodiadau yr ardal. Mae posib defnyddio hynodrwydd rhyfeddol ein diwylliant at ddibenion masnachol, yn enwedig yng nghyd-destun twristiaeth. Penllyn wedi'r cyfan yw cartref cerdd dant; mae'r nifer o gantorion sydd yn wedi eu magu yn yr ardal yn rhyfeddol, a rhaid ond edrych ar lwyddiannau yr ardal yn yr eisteddfodau i weld fod y doniau yma yn parhau yn y cenedlaethau newydd. Adnabyddir Cymru fel gwlad y gân, ac mae'r awydd am brofi peth o'r arfer cerddorol yma yn rhan o ddisgwyliadau ymwelwyr â Chymru – yn amlach na pheidio serch hynny mae'n nhw'n cael ei siomi.

Mae gan Benllyn rhwydwaith o ysgolion a chanolfannau cymdeithasol a thafarnau trefol/gwledig poblogaidd. Gellir trefnu y rhwydwaith yma i fod yn fwy ffurfiol a llunio cylchdaith gerddorol ar gyfer cantorion yr ardal – o bob math o gerddoriaeth. O gael buddsoddiad uniongyrchol gan y pwrs cyhoeddus (neu busnesau i fuddsoddi i bot canolog) o £6000 dros 3 mis yr haf (£3000 canolog gyda 'match-funding' preifat) gall hyn sicrhau incwm i gasgliad o gerddorion lleol, a hwythau yn perfformio 3 gwaith yr wythnos mewn tafarndai/gwestai lleol. e.e. Bryntirion (Llandderfel); Eagles (Llanuwchllyn); Gwesty Llyn Bala (Llangywer); Plas Coch; Bulls Head; Llew Gwyn; Yr Afr; Plas yn Dre. Neu gellir trefnu nosweithiau wedi eu teilwra ar gyfer criw o ymwelwyr, gyda blas ar y diwylliant lleol, yn cynnwys perfformiadau, bwyd a diod. Byddai rhywle fel Neuadd Y Cyfnod yn Y Bala, neu Neuadd Llanuwchllyn a neuaddau yr ysgolion pentrefol yn addas ar gyfer digwyddiad o'r fath.

Mae datblygiad Canolfan Cywain yn ddatblygiad cyffrous, ond nad yw eto yn darparu ar gyfer anghenion ymwelwyr diwylliannol. Mae angen gweld mwy o fuddsoddiad yma er mwyn caniatáu y ganolfan i baratoi rhaglen o ddigwyddiadau blynyddol ar gyfer ymwelwyr diwylliannol yn ogystal â phobl leol.

Dyma faes datblygu buan i hyrwyddwyr mentr gymunedol a fyddent yn gysylltiedig a'r ysgolion gan alluogi Ffederasiwn Ysgolion Penllyn i gyflogi rhagor o staff trwy ehangu cyfrifoldebau (datblygu cymunedol yn ogystal ag addysgu) a thynnu o gyllidebau datblygu yn ogystal. Mewn ardal gryno fel Penllyn, mae mawr angen cydlynu cyllidebau prin a'r defnydd o adnoddau dynol a materol. Gallai'r hyrwyddwyr cymunedol hefyd fod yn gyfrifol

am hybu cynlluniau ecodwristiaeth a drafodir yn yr adran nesaf. Trwy weld hyn ar waith yn yr ysgolion, fe greir diwylliant o fentro ymhlith y disgyblion hefyd.

Mae nifer o gymunedau a threfi gwledig ar hyd a lled Prydain wedi datblygu rhywbeth unigryw er mwyn denu ymwelwyr newydd a sicrhau fod ymwelwyr yn parhau i ddod, nid o reidrwydd yn dwristiaid ond hefyd yn ymwelwyr economaidd. Mae'r Gelli ym Mrycheiniog yn enghraifft sydd wedi datblygu diwydiant gwerthu llyfrau llewyrchus a gwyl lenyddiaeth hynod ffyniannus yn sgil hynny. Mae Llwydlo yn Sir Amwythig wedi datblygu ei hun fel canolfan fwyd, gyda marchnadoedd ffermwyr llewyrchus ac ymwelwyr o bob man yn mynd yno i brynu'r cynnyrch. Gallai Penllyn ddatblygu i fod, yn yr un modd yn ganolfan gydnabyddiedig ar gyfer Diwylliant Gwerin ac hefyd ar gyfer ecodwristiaeth.

Ecodwristiaeth / Twristiaeth Gynladwy / Twristiaeth Gwyrdd

Dyma faes arall sydd yn cynyddu yn aruthrol, gyda ardaloedd twristiaeth nodedig ym Mhrydain yn datblygu prosiectau drudfawr i ddatblygu a hyrwyddo eco dwristiaeth, megis Dyfnaint, Cernyw, Yr Alban. Mae Penllyn mewn sefyllfa ddelfrydol i fanteisio a datblygu ar dwristiaeth o'r fath, gyda llonyddwch, tawelwch, coedwig, mynyddoedd, y Parc Cenedlaethol, beicio, a chanolfannau 'gwyrdd' cyfagos.

Mae cymunedau eraill wedi datblygu gwyliau neu ddigwyddiadau yn seiliedig ar hynodrwydd eu treftadaeth, traddodiadau, neu adnoddau lleol, sydd yn eu tro yn denu cannoedd a weithiau miloedd o bobl y flwyddyn i'r ardal.

Dyma rai enghreifftiau y gellid eu hefelychu (Manylion llawn yn Atodiad 3)

- The Big Sheep Attraction, Gogledd Dyfnaint
- World Nettle-eating Championship, Swydd Dorset
- Bog Snorkelling
- Rasmus Caws
- Prince of Puddings
- Worm Charming Championship
- Garlic Festival Ynys Wyth
- Onion Fayre Newent

Mae gan Benllyn arferion unigryw eisoes – treialon cŵn defaid, eisteddfodau, Wa! Bala.

Ynni

Cyflenwad ynni yw un o'r prif bwyntiau trafod llywodraethau ar draws y byd. Mae cael gafael ar ynni er mwyn cynnal ein ffordd o fyw neu i ddatblygu economi yn achos cynnen ar bob cyfandir. Yn draddodiadol mae cynhyrchu ynni wedi bod yn ddibynnol ar adnoddau ffosil, neu gynnyrch adnoddau ffosil, fel glo, olew, a nwy, ond gyda adnoddau hyn yn crebachu, a'r galw am ynni yn cynyddu mae mwy a mwy o bobl a llywodraethau yn edrych am ffurf amgenach o gynhyrchu ynni.

Yn ogystal â hyn mae'r lobi 'gwyrdd' yn gynyddol ennill y ddadl yn erbyn ynni ffosil ac o blaid ynni gwyrdd. Mae Penllyn mewn sefyllfa ddefnyddol i fanteisio ar hyn. Yn gyntaf gall pob aelwyd sydd a chyfalaf wrth gefn ddechrau cynhyrchu eu hynni eu hunain, gan ddenu incwm i fewn i'r ardal, a hynny drwy gynllun newydd Llywodraeth san Steffan. Mae cynllun y Feed In Tariff, sydd yn cymryd lle y renewable Obligation Certificate, yn golygu y bydd y Llywodraeth yn talu i gynhyrchwyr ynni bychan (llasi na 5MW) am yr ynni hynny, pr'unnai eu bont yn ei ddefnyddio neu yn ei allforio i'r grid cenedlaethol. Mae'r rhai hynny sydd yn ei allforio i'r grid hefyd yn cael eu talu eto yn ôl pris y farchnad. (http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/consultations/elec_financial/elec_financial.aspx)

'Renewable Electricity Financial Incentives Consultation' tudalen 83)

Gwynt

Mae ucheldir agored Penllyn yn ei wneud yn berffaith ar gyfer ynni gwynt. Gellir datblygu tyrbinau gwynt ar y cyd a chwmni ynni gwynt Cymraeg lleol, Cwmni Ynni Gwynt Cymru, ac mae pob tyrbîn yn talu miloedd yn ôl i'r perchennog tir, yn ddibynnol ar faint o ynni mae'n gynhyrchu. Gall un tyrbîn dalu hyd at £20,000 o bunnoedd yn ôl i'r perchennog tir y flwyddyn.

Dŵr

Mae hydro-electrig yn fodd proffidiol iawn o gynhyrchu egni, ac unwaith eto mae gan Benllyn yr adnoddau defnyddol i ddatblygu ynni o'r fath. Gyda afonydd Tryweryn, Lliw, a'r Ddyfrdwy (ac i raddau llai y Ddyfrdwy yn ymadael a Llyn Tegid) mae posib cynhyrchu trydan gan ddod ag incwm sylweddol i fewn i'r ardal Mae nifer o enghreifftiau yn tystio i lwyddiant mentr o'r fath - gw ATODIAD4 am hanes fferm ym Mhowys yn cynhyrchu trydan gwyrdd

Mae diddordeb eisoes wedi cael ei ddangos mewn datblygu tyrbîn ar y Lliw, ond hyd yma mae wedi ei wrthod. Rhaid gweithredu yn gyflym os am sicrhau budd cymunedol allan o ddatblygiadau o'r fath.

Biodanwydd

Cyfeiriwyd eisoes at dyfu cnydau newydd fel Cywarch eisoes wedi cael ei gyfeirio ato, ond gellir hefyd datblygu cnydau Biomass ar gyfer Biodanwydd megis Miscanthus.

http://www.biomassenergycentre.org.uk/portal/page?_pageid=75,18204&_dad=portal&_schema=PORTAL).

Mae arall gyfeirio y defnydd o dir ar gyfer cnydau yn llwyr ddibynnol ar ffermydd yn arall gyfeirio o gynhyrchu cig coch. Mae cynhyrchu cig coch yn ddibynnol ar y defnydd o dir isel ar gyfer bwydo. Mae'n anodd iawn felly defnyddio tiroedd isel Penllyn ar gyfer tyfu cnydau newydd, a ffermio defaid/gwartheg.

5. Rhyddid yr Ifanc yn ein Cymunedau

Dyfodol i bobol ifanc yn ein cymunedau.

Heb bobol ifanc mi fydd ein cymunedau Cymraeg yn marw ar eu traed. Pobol ifanc yw dyfodol yr iaith Gymraeg. Rhaid arfogi pobol ifanc sydd am aros yn eu cymunedau i fedru gwneud hynny. Rhaid drwy newidiadau pellgyrhaeddol, weld pobol ifanc yn chwarae rhan allweddol yn ein cymunedau.

GW ATODIAD 5 – am Siarter Rhyddid i'r Ifainc Gwynedd

Mae Cymdeithas yr Iaith felly'n gosod darparu ar gyfer pobl ifainc yng nghanol yr holl bolisiau yn y cynllun hwn. Mae angen sicrhau fod pobl ifainc cymunedau Penllyn yn cael eu harfogi trwy'r system addysg i weld y posibiladau iddyn nhw eu hunain yn eu cymunedau. Mae angen sicrhau fod gwranddo ar eu llais a'u bod yn datblygu ymdeimlad o gyfrifoldeb o'r oedran cynharaf tuag at y cymunedau. Ac yn olaf, mae angen sicrhau'r fath ar bolisiau o ran tai a datblygu economaidd fel bod gyda nhw opsiwn real o wneud eu dyfodol yn y cymunedau hyn.

Cynlluniau Gweithredol Penodol.

Gwaith – Dylai Gyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ddatganoli gwaith i bentrefi gwledig Penllyn. Bydd hyn yn ein helpu i aros a gweithio yn ein cymunedau.

Defnyddiwn Ysgol y Parc ac ysgolion arall yn yr ardal sydd wedi bod dan fygythiad yn ddiweddar. Fel esiamplau perffaith, o adnoddau cymunedol y gallwn ddefnyddio rhannau o'r adeiladau fel swyddfeydd a.y.b. Rydym yn awyddus i weld Ysgol y Berwyn a Choleg Meirion Dwyfor yn cydweithio mwy gyda phobol ifanc, yn llunio cynlluniau manwl fydd yn galluogi bobol ifanc i ddilyn cyrsiau fydd yn dilyn i fyny at waith safonol yn ein hardal e.e. cyrsiau awyr agored, arwain mynydd ayb a fydd ymhen amser yn datblygu gweithlu proffesiynol a fydd yn gallu llenwi swyddi o safon uchel yn y diwydiant twristiaeth.

Rydym hefyd yn awyddus i weld cyrsiau yn ymwneud a egni cynaliadwy, a cyrsiau amaethyddiaeth cynaliadwy yn rhan o addysg yr ifanc yn ardal Penllyn.

Tai / Cartrefi: Rydym am weld cyngorau sir, dosbarth a plwyf yn mynd i'r afael a phroblemau tai ymysg yr ifanc yn ardal Penllyn. Rydym am weld yr awdurdodau yn mynd rhagddi i gydweithio efo ieuenctid ardal Penllyn er mwyn canfod y math o dai sydd eu hangen ar bobol ifanc os ydynt yn dewis un ai i symud i gymunedau gwledig neu yn penderfynu aros yn eu cymunedau gwledig.

Rydym yn galw ar Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Gwynedd i fynd rhagddi i adeiladu unedau pwrpasol i'r ifanc yn nhref y Bala. Bydd yr unedau hyn o'r safon pensaernïol gorau, ac yn dilyn rheoliadau amgylcheddol-gyfeillgar. Byddwn hefyd yn gobeithio gweld amryw o ofodau cymdeithasol yn yr unedau hyn, fydd yn fodd i hurwyddo diwylliant cyfforddus a byw. Bydd yr unedau hyn yn agored am rent teg i unrhyw berson ifanc rhwng 16 a 30. Bydd pwyllgor gweithredu'r unedau yn cael ei sefydlu, gyda pob person sy'n byw yn

yr unedau yn cael eu gwahodd fel aelod y pwyllgor gweithredol. Bydd gan bob person syn byw yn yr unedau yr hawl i bleidleisio ar faterion yn ymwneud ar unedau.

Rydym yn awyddus i weld unedau tebyg yn codi yn mhentrefi gwledig pum plwyf Penllyn.

Llais yr Ifanc : Rydym yn datgan ein hapusrwydd gyda cyngorau yr ifanc sydd wedi eu sefydlu yn Ysgol y Berwyn a Choleg Meirion Dwyfor, ond yn gobeithio bod sgôp a photensial i ni gyfyddu dylanwad y cyngorau hyn.

Rydym am weld pob person ifanc syn byw yn nghymunedau Penllyn yn cael gwahoddiad i eistedd ar bwylgorau yr ifanc yn eu plwyfi. Drwy wneud hyn bydd pump pwyllgor yr ifanc yn cael ei sefydliadau yn ardal Penllyn.

Bydd gan y pwyllgorau hyn ddylanwad a llais real, bydd y pwyllgorau hyn yn gallu trafod a phenderfynu ar faterion pwysig syn ymwneud â bywyd yr ifanc, o dai i ddiwylliant i'r cyfryngau a hamdden. Bydd swyddog cyflogedig yn cael ei benodi gan Gyngor Gwynedd er mwyn hwyluso gwaith y pwyllgorau hyn, a bydd adrodd yn ôl ar benderfyniadau'r pwyllgorau i'r Gyngor Sir yn ddyletswydd pwysig i ddeiliad y swydd.

Bydd pob un o'r pump pwyllgor yn ethol cynrychiolydd i fynychu cyfarfod chwe misol ieuencid Penllyn. Bydd y cyfarfodydd hyn yn fforwm i drafod penderfyniadau y chwe mis diwethaf, ac yn fodd i ni drafod yr hyn a obeithir i'w gyflawni yn ystod y chwe mis sydd i ddod

Bydd y pwyllgorau hyn yn agored i bawb rhwng 16 a 30 yn ardal Penllyn.

Diwylliant: Rydym yn awyddus i weld diwylliant yr ifanc yn ffynnu yma yn Mhenllyn. Yn aml gwelwn nosweithiau diwylliannol wedi eu trefnu ac i chwaeth pobol yn hyn na chanol oed.

Gwelwn unedau yr ifanc a fydd yn cael eu sefydlu yma yn Mhenllyn yn bwysig iawn yn natblygiad creu diwylliant yr ifanc. Gobeithiwn weld gorsafoedd radio cymunedol yn cael eu sefydlu yn yr unedau yma, fydd yn fodd i'r ifanc yn ardal Penllyn i drafod materion yr ifanc, ac hefyd yn fodd i hyrwyddo diwylliant yr ifanc ar draws pum plwyf Penllyn.

Rydym hefyd yn awyddus i weld ffansins a chylchgronau yn ymwneud a diwylliant yr ifanc yn cael eu cyhoeddi o'r unedau yma

CASGLIAD

Her yn unig sydd yn y cynlluniau gwasgarog hyn, nid Cynllun Datblygu biwrocrataidd i'w ffeilio. Trwy'r frwydr dros ddyfodol yr ysgolion, a thrwy'r diwylliant bywiog, gwelsom yr ewylllys i fyw sy'n bodoli yng nghymunedau Penllyn. Yr her yn awr yw i'r cymunedau hyn fabwysiadu'r fath ar bolisiau ymarferol a allent wireddu'r weledigaeth a sicrhau fod yn y fro gymunedau Cymraeg cynnaladwy.

ATODIADAU

SAIL ECONOMAIDD I'N CYMUNEDAU

Atodiad 1 – O wefan Cymdeithas y Pridd –

“Labour force: there has been a long, steady decline in overall employment in UK agriculture. In 1900, around 40% of the UK population was still employed in agriculture, by the start of the Second World War that had fallen to some 15%; today less than 2% of the population works in farming. The number of farm workers (excluding farm owners, partners, directors and their spouses) declined from 882,296 in 1951 to 183,600 by 2003 – a 79% decline over 50 years, averaging out at 37 farm workers leaving the land everyday. The average age of farmers is 56, with the proportion of farmers aged 55 and over increasing from 48% to 56% in a single decade (1993-2003)”

Atodiad 2 – Adroddiad gan yr OECD am Dwristiaeth Ddiwylliannol

Cultural tourism is one of the largest and fastest-growing global tourism markets. Culture and creative industries are increasingly being used to promote destinations and enhance their competitiveness and attractiveness. Many locations are now actively developing their tangible and intangible cultural assets as a means of developing comparative advantages in an increasingly competitive tourism marketplace, and to create local distinctiveness in the face of globalisation.
http://www.oecd.org/document/53/0,3343,en_2649_34389_42040117_1_1_1_1,0.html

Atodiad 3 – Enghreifftiau o Atyniadau Hynod

- *THE Big Sheep farm attraction, North Devon, has organised its own Grand National to tie in with the more famous Aintree equivalent on April 4*
<http://www.dailypost.co.uk/farming-north-wales/farming-news/2009/03/24/the-big-sheep-farm-attraction-north-devon-has-organised-its-own-grand-national-to-tie-in-with-the-more-famous-aintree-equivalent-on-april-4-55578-23216517/>
- *World nettle eating championships*
It's probably one of Dorset's most unusual events, but competitors come from all over the world. Welcome to the World Nettle Eating Championships - one hour of eating as many stinging nettles as your stomach can bare!

http://www.bbc.co.uk/dorset/content/articles/2005/06/17/nettle_eating_feature.shtml

- **Bog Snorkelling**
Every August for the last 20 years, the smallest town in Britain has been host to the International Extreme Bog Snorkelling Championships. The winner is entered in the Guinness Book of Records.

<http://www.bogsnorkelling.com/>

- **Cheese Races**
*There are 5 downhill cheese races (one is for ladies). - Starting at 12:00 Midday.
There are 4 uphill races (Boys Under 12's, Girls Under 12's, Mens Open & Womens Open)*

<http://www.cheese-rolling.co.uk/>

- **The Prince of Puddings**
Forget cheese rolling and worm charming – events don't get any weirder than The World Black Pudding Throwing Championship, held each year in Greater Manchester.

http://www.bbc.co.uk/manchester/content/articles/2004/09/13/black_pudding_throwing_feature.shtml

- **Worm Charming Championship**
<http://www.wormcharming.com/>
- **The World Pea shooting Championship 2010**
http://www.witcham.org.uk/_sgg/m1m6_1.htm
- **Garlic festival – Ynys Wyth**
- **Onion Fayre – Newent**

ATODIAD 4 – Hanes Fferm ym Mhowys yn cynhyrchu trydan gwyrdd

A sheep farm in the Brecon Beacons in mid-Wales is providing a glimpse of a post-carbon future, one in which green electricity is generated locally.

And the farmer involved, Howell Williams, has found that low emissions can mean high profits. He is making £900 (\$1,500) a month from going green.

Howell Williams spent £25,000 (\$41,000) on a water turbine, housed in a small shed over the stream, just next to his farm. A £2,500 grant from the Brecon Beacons National Park helped him reduce the cost.

He showed me the equipment after a rainy few days and it was generating at its maximum rate, a constant 11kW, all of it sold to the local electricity company.

<http://news.bbc.co.uk/1/hi/business/8387449.stm>

ADRAN 5

ATODIAD 5 – Siarter Rhyddid i'r Ifanc yng Ngwynedd

. Ers degawdau pellach, mae cymunedau Cymraeg Cymru dan warchae. Yn nyddiau Thatcher ni welodd llywodraeth ganolog unrhyw bwrpas na ystyr i ddiogelu cymunedau Cymru, gan ganolbwyntio yn unig ar rymoedd y farchnad rhydd, a oedd yn eithriadol o newidiol i ddyfodol ein cymunedau. Credwn nad oes bron dim wedi newid ers y dyddiau hynny.

Credwn fel aelodau ifanc yn ein cymunedau nad yw'r Cynulliad wedi gneud dim i leddfu rhai o'n gofidion am ddyfodol ein cymunedau. Heb ffyniant yr iaith ymysg yr ifanc, mi fydd yr iaith yn marw mewn dim o dro. Credwn hefyd mai yn nwylo'r ifanc y mae dyfodol ein cymunedau. Drwy alluogi pobol ifanc i aros yn eu cymunedau Cymraeg, mi fydd y cymunedau hynny yn ffynnu.

Credwn hefyd yn y syniad bod ein cymunedau gwledig yn elwa'n aruthrol wrth i'r ifanc adael am brifysgolion, gwaith neu brofiad i ardaloedd trefol, dinesig a'r draws y byd. Pan fydd y pobol ifanc hynny yn penderfynu ymgartrefu yn ôl mewn cymunedau gwledig neu yn mro eu mebyd, mi fydd y cymunedau hynny yn elwa oherwydd profiad a syniadau newydd.

Credwn hefyd bod gan pob person ifanc yr hawl sylfaenol i aros yn eu cymunedau gwledig, os ydynt yn penderfynu gwneud hynny. Credwn hefyd bod gan pob person ifanc yr hawl i gartref yn eu cymunedau. Credwn hefyd bod gan pob person ifanc yr hawl am waith yn eu cymunedau. Credwn hefyd bod gan pob person ifanc yr hawl i fynegi eu hunain yn ddiwylliannol, cymdeithasol neu wleidyddol yn eu cymunedau, heb unrhyw rhagfarnau ar sail rhyw, oed, hil, neu rhywioldeb.

1. Gwaith

Yn fwy aml na pheidio, diffyg gwaith yn ein cymunedau gwledig yw'r prif ffactor pam bod pobol ifanc yn teimlo'r angen i adael eu cymunedau. Ers degawdau bellach, does dim wedi ei wneud i ateb y broblem yma. Gwelwyd di-boblogi enbyd o'r ardaloedd Cymraeg eu hiaith i'r ardaloedd dinesig. Prif sbardun y di-boblogi yma yw diffyg gwaith safonol, diffyg gwaith sydd yn gyfystyr â chymwysterau proffesiynol. Gwelwn yn aml felly bobl yn mynd i ffwrdd i brifysgolion ac yn methu ymgartrefu yn ôl yn eu cymunedau.

Yn ychwanegol gwelwn rhwystrau lu yn wynebu pobol ifanc sydd am weithio yn myd

amaethyddiaeth. Mewn ffermydd bychain, mae hi'n eithriadol o anodd i gadw meibion a merched i weithio adref. Credwn yn gryf yn syniad y gall amaethyddiaeth fod yn fodd i bobol ifanc fedru aros yn eu cymunedau, fydd mewn tro yn cadw ffordd o fyw ac yn fodd i gadw ac i warchod ein hetifeddiaeth. Rydym hefyd yn canmol y gwaith eithriadol o dda sydd yn cael ei gyflawni gan Fudiad y Ffermwyr Ifanc.

Mae'n hanfodol bod Awdurdodau Lleol trwy Gymru a Llywodraeth y Cynulliad yn cymryd pobl ifanc o ddifri. Mae angen iddynt greu cynlluniau gwaith newydd fydd yn sicrhau:

- Gwaith yn y gymuned i bobol ifanc os dyna eu dewis.
- Rhyddid ac elfen o reolaeth yn y gwaith neu'r hyfforddiant.
- Datganoli gwaith Llywodraeth y Cynulliad i gymunedau gwledig.
- Datganoli gwaith Awdurdodau Lleol sir i gymunedau gwledig.
- Datganoli gwaith y cyfryngau torfol i gymunedau gwledig.
- Pwyslais cynyddol ar waith amgylcheddol mewn cymunedau gwledig.

Prif ddiwydiant Gwynedd yw twristiaeth, daw cannoedd ar filoedd i Wynedd pob blwyddyn i gerdded neu i ddringo mynyddoedd Eryri, daw hyn a swyddi safonol gyda chyflogau uchel, yn arbennig gwaith fel arweinwyr mynydd, addysgwyr dringo a.y.b yn ôl ffigyrau diweddar (Cymunedau'n Gyntaf Blaenau Ffestiniog) mae 90% o bobol a gyflogir yn y swyddi yma yn fewnfudwyr o Loegr.

2. Tai

Gyda phrisiau tai ac eiddo tu hwnt i gyrraedd y boblogaeth leol heb son am fod tu hwnt i gyrraedd pobol ifanc, mae'r angen am dai ar rent yn enfawr. Mae llywodraeth leol a llywodraeth ganolog wedi bod wrthi ers degawdau bellach yn gwerthu ein stoc o dai cyngor yn ein cymunedau gwledig. Mae hyn yn broblem enbyd syn amddifadu pobol ifanc rhag gallu byw bywyd llawn yn eu cymunedau.

Yn debyg i pob elfen arall o gymdeithas mae gan bobol ifanc eu gofynion penodol o safbwynt tai ac eiddo. Deddf Eiddo, a'r Hawl i Rentu yw'r unig ateb i sicrhau bod gan bobol ifanc gyfle i aros yn eu cymunedau a'r hawl i gael to uwch eu pen.

Rhaid cael ymchwil a strategaeth gyson gan awdurdodau lleol i ddarganfod beth yw anghenion penodol pobl ifanc yn y farchnad dai ac eiddo, ac i weithio i sicrhau bod yr anghenion hynny yn cael eu hateb. Dylid arfogi pobol ifanc i fynnu bod unedau addas i bobol ifanc yn cael eu hadeiladu mewn cymunedau gwledig. Dylid sicrhau bod digon o unedau a fydd yn ganolfannau i ddiwylliant ifanc mewn cymunedau gwledig. Soniwyd eisoes am yr angen am lacio rheolau cynllunio er mwyn sicrhau y gellir adeiladu tai ar dir teuluol lle bo hynny'n briodol. Mae hyn yn arbennig o wir yng nghyd-destun gallu pobl ifanc i aros yn eu cymunedau.

3. Llais

Yn amlach na pheidio mi fydd llais yr ifanc yn cael ei anwybyddu yn llwyr yn ein cymunedau. Ni does gennym hawl i gyfrannu at benderfyniadau ein cymunedau. Nid oes gennym hawl i drafod pethau sy'n effeithio arnom ni. Er bod cynghorau ysgol wedi eu sefydlu ers blynyddoedd bellach, nid oes gennym unrhyw bŵer i drafod nac i newid y cwricwlwm.

Yma yng Ngwynedd nid oes unrhyw berson ifanc yn aelod o bwyllgor plant a phobol ifanc y sir. Nid oes unrhyw fforwm ieuentid yma yn y sir, gyda chriw bychain o bobol gwyn canol oed mewn siwtiau yn trafod beth sydd orau i ni.

Credwn yn gryf hefyd yn y syniad o gychwyn gorsafoedd radio / gwefannau cymdeithasol gyda arian cyhoeddus er mwyn trafod diwylliant ifanc yn ein cymunedau. Bydd pobl ifanc yn defnyddio'r cyfryngau fel fforwm i ddatblygu syniadau, yn hytrach na bod yn wrandawyr yn unig. Mae'n hen bryd i bobl ifanc gael y cyfle i fynegi barn i drafod materion ieuentid, ac i drafod dyfodol ein cymunedau Cymraeg.

Mae angen i Lywodraeth y Cynulliad fynd rhagddi i ariannu pwyllgorau ieuentid plwyfol, sirol a chenedlaethol. Gyda'r pwyllgor plwyfol yn enwebu aelod i eistedd ar y pwyllgor sirol, ar pwyllgor sirol yn enwebu aelodau i eistedd ar y pwyllgor cenedlaethol.

Mae'n rhaid i wleidyddion etholedig wrando ar lais yr ifanc. Myth yw mai drwy brofiad blynyddoedd y daw rhywun i ddeall holl gymhlethdodau bywyd. Mae gan yr ifanc farn sydd yn un mor ddilys a barn unrhyw aelod arall yn ein cymunedau.

Bydd y fforymau hyn yn fodd i ni drafod drafftiau o gynlluniau lleol a ceisiadau am ganiatâd cynllunio, a'u heffaith ar bobl ifanc. Fodd i hybu bobl ifanc i leisio barn ar faterion cyfoes.

4. Rhyddid cyfartal

Faint o rhyddid sydd gennym i fyw bywyd yn y ffordd yr ydyn ni'n ei ddewis? Mae pobol ifanc yn gorfod gadael eu cymunedau a symud i'r dinasoedd mawr ac i Loegr er mwyn dianc rhag rhagfarn ac anoddefgarwch oherwydd eu bod yn hoyw.

Dylid rhoi'r un hawliau i bob aelod o'n cymunedau trwy osod yr oedran cydsynio rhywiol i bawb, a sicrhau nad oes rhagfarn i unrhyw agwedd o fywyd.

Credwn yn y cyd-syniad bod gan bawb yr hawl i arddel unrhyw grefydd, boed hynny yn grefydd confensiynol neu anghonfensiynol yn ein cymunedau neu i ddatgan anghrediniaeth. Credwn yn y cysyniad o rhyddid cyfartal heb unrhyw rhagfarnau ar sail hil neu rhyw.